# Arwain trefniadau gweithio mewn partneriaeth

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion ar gyfer arwain trefniadau gweithio mewn partneriaeth. Bydd angen i chi gydlynu partneriaethau, diffinio rolau a chyfrifoldebau, a sefydlu strwythurau llywodraethu. Byddwch yn nodi bylchau mewn arbenigedd, yn rheoli gwrthdaro, ac yn cefnogi eraill i ddatrys heriau. Bydd sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n ddiogel, cydymffurfedd cyfreithiol, a gwelliant parhaus yn allweddol i ddarparu gwasanaethau effeithiol a sicrhau canlyniadau cadarnhaol i unigolion.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. nodi bylchau mewn arbenigedd a phenderfynu lle mae angen cydweithio allanol
2. casglu a dilysu gwybodaeth am bartneriaid posibl i sicrhau arbenigedd a chapasiti
3. sefydlu a chysylltu â phartneriaid y mae angen i chi weithio gyda nhw i gyflawni amcanion y gweithle
4. adnabod gwerthoedd, ethos, safonau a phwrpas partneriaid eraill
5. gweithio mewn ffyrdd sy'n parchu sgiliau, gwerthoedd ac arbenigedd amrywiol yr holl bartneriaid
6. sefydlu pwrpas a threfniadau gweithio mewn partneriaeth
7. cytuno ar ganlyniadau a rennir sy'n gysylltiedig â gweithio mewn partneriaeth
8. cytuno ar rolau a chyfrifoldebau pob partner i gymryd camau er mwyn cyflawni'r canlyniadau y cytunwyd arnynt
9. gweithio ag eraill i fonitro ac adolygu cyflawniadau'r camau a chanlyniadau
10. gweithredu lle mae heriau o ran cyflawni camau neu ganlyniadau
11. rheoli gwrthdaro rhwng buddiannau ac anghytundebau ag eraill mewn ffyrdd sy'n hybu canlyniadau cadarnhaol
12. gweithio ar y cyd i werthuso effeithiolrwydd partneriaethau yn erbyn amcanion y gwasanaeth
13. gweithio ag unigolion ac eraill i sicrhau bod eu barn a'u dewisiadau'n llywio'r gwaith cynllunio a gwneud penderfyniadau
14. gweithio ag eraill i nodi meysydd o arferion gorau a'r newidiadau sydd eu hangen i'r trefniadau gweithio mewn partneriaeth
15. gweithio ag eraill i ddatblygu cynlluniau gweithredu i wella trefniadau gweithio mewn partneriaeth
16. sefydlu trefniadau ar gyfer rhannu gwybodaeth â phartneriaid
17. gweithio ag unigolion ac eraill i adolygu'r trefniadau rhannu gwybodaeth
18. cwblhau'r cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer arwain trefniadau gweithio mewn partneriaeth
19. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau wrth arwain trefniadau gweithio mewn partneriaeth

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. pwrpas, cylch gwaith a chyfrifoldebau partneriaid
2. pwysigrwydd sefydlu trefniadau llywodraethu ar gyfer gweithio mewn partneriaeth
3. technegau ar gyfer cytuno ar ganlyniadau a rolau a rennir gyda phartneriaid yn deg
4. technegau ar gyfer datrys problemau a meddwl yn flaengar wrth weithio mewn partneriaeth
5. sut mae cyfrannu at ddatblygu systemau, arferion, polisïau a gweithdrefnau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth
6. dulliau ar gyfer cytuno ar brotocolau a'u hadolygu gydag unigolion ac eraill ar gyfer rhannu gwybodaeth â phartneriaid
7. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar drefniadau gweithio mewn partneriaeth
8. dylanwad diwylliant a chefndir ar drefniadau gweithio mewn partneriaeth
9. dulliau ar gyfer cefnogi eraill i weithio gydag unigolion a'u cefnogi
10. sut mae arwain o ran urddas, caredigrwydd a thosturi mewn trefniadau gweithio mewn partneriaeth
11. sut mae cefnogi rheoleiddio emosiynol wrth weithio mewn partneriaeth
12. sut mae arwain o ran defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma mewn trefniadau gweithio mewn partneriaeth
13. strategaethau ar gyfer rheoli gwrthdaro rhwng buddiannau, materion a phryderon gyda phartneriaid
14. dulliau ar gyfer gwerthuso effeithiolrwydd partneriaethau yn erbyn amcanion y gwasanaeth
15. dulliau ar gyfer monitro ac adolygu cyflawniad camau a chanlyniadau wrth weithio mewn partneriaeth
16. dulliau ar gyfer nodi meysydd o arferion gorau a meysydd i'w gwella wrth weithio mewn partneriaeth
17. sut mae datblygu cynlluniau gweithredu i wella trefniadau gweithio mewn partneriaeth
18. sut mae defnyddio dyfeisiau ac adnoddau digidol mewn trefniadau gweithio mewn partneriaeth
19. y cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer arwain trefniadau

gweithio mewn partneriaeth
20. theorïau sy'n berthnasol i arwain trefniadau gweithio mewn partneriaeth
21. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a’r canllawiau perthnasol ar gyfer arwain trefniadau gweithio mewn partneriaeth
22. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth arwain trefniadau gweithio mewn partneriaeth
23. sut mae eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth arwain trefniadau gweithio mewn partneriaeth, a sut i fynd i'r afael â hyn
24. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth weithio mewn partneriaeth

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

# Arwain trefniadau gweithio mewn partneriaeth

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD417 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Arwain trefniadau, Gweithio mewn partneriaeth, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |